**EITEM AR YR AGENDA: 9**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**17eg Hydref 2011**

**Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2009-12**

**Adroddiad gan Dawn Docx, Dirprwy Brif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Cyflwyno, er cymeradwyaeth yr Aelodau, y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2010-11 hyd at 2012-13.

## Cefndir

2 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub lunio Cynllun Lleihau Risg/cynllun gweithredu blynyddol, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gylch, a'i gyhoeddi'n flynyddol, a hynny erbyn 31 Hydref yn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub mwyaf diweddar Llywodraeth Cymru.

3 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub lunio Cynllun Gwella, cynnal ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gylch, a'i gyhoeddi'n flynyddol, a hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi 30 Medi yn y flwyddyn cyn y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â'r Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Gorchymyn Awdurdodau Tân ac Achub (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2010.

4 Hefyd, mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub gyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn ymwneud â phob blwyddyn ariannol cyn 31 Hydref yn y flwyddyn wedi'r flwyddyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi. Mae hyn yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

5 Mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod amseru'r cyhoeddiadau hyn yn awgrymu y byddai'n gyfleus llunio un cynllun yn cynnwys adroddiad ar y flwyddyn ariannol flaenorol, crynodeb o'r amcanion y cytunwyd arnynt yn y flwyddyn gyfredol, a'r cynllun gwella, ac unrhyw amcanion ychwanegol o ran y Cynllun Lleihau Risg, am y flwyddyn ariannol i ddod.

6 Cymeradwywyd Cynllun Cyfunol drafft i Leihau Risg a Gwella ar gyfer 2009-2012 yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Hydref 2010. Roedd yna un ar hugain o weithredoedd yn deillio o'r saith amcan a gytunwyd o fewn y cynllun, a nodwyd byddai nifer ohonynt yn cymryd mwy na blwyddyn i'w cyflawni.

## Cyflwyniad

7 Yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Mehefin 2011, cytunwyd i gadarnhau penderfyniadau'r Panel Gweithredol sef dylid cadw cynnwys y ddogfen mwy neu lai yr un fath, ac y dylai'r ymgynghoriad cyhoeddus dros haf 2011 adlewyrchu hyn.

## Gwybodaeth

8 Derbyniwyd 56 o ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, gyda'r mwyafrif yn gefnogol o'r amcanion a gynigwyd. O ganlyniad i'r ymateb hwn, cytunodd y Panel Gweithredol ar 19 Medi 2011 i argymell i'r Awdurdod llawn fod yr amcanion arfaethedig i leihau risg a gwella yn ffurfio sylfaen y Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella yn 2012-13.

9 Mae drafft o'r Cynllun Cyfunol 2010-13 nawr wedi ei gwblhau ac mae ynghlwm fel atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

10 Bydd y ddogfen yn cael ei gwirio am gywirdeb, a bydd rhaid ychwanegu gwybodaeth fel a nodir isod cyn cyhoeddi'r Cynllun terfynol ar 31 Hydref 2011:

- cyfeiriadau at ddata cymharol Cymru gyfan a ddisgwylir ei gyhoeddi gan Llywodraeth Cymru ar 14eg Hydref 2011;
- amlinellu cynlluniau'r Gwasanaeth ar gyfer 2012-13 yn seiliedig ar benderfyniadau a wneir yn y cyfarfod hwn o'r Awdurdod.

## Argymhellion

11 Argymhellir fod Aelodau'n cymeradwyo'r drafft o'r Cynllun Cyfunol i Leihau Risg a Gwella 2010-13 i'w gwblhau, fabwysiadu a'i gyhoeddi cyn y dyddiad cau statudol o 31 Hydref 2011.